# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 12 MEHEFIN 2019 AM 10:30 A.M.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Poole – Cadeirydd

Y Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau Cymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol) ac M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

S. Couzens (Prif Swyddog Tai), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Busnes Dros Dro), S. Isaacs (Rheolwr Rhenti), L. Lucas (Pennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

### 2. DATGANIAD BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau ar ddechrau neu yn ystod y cyfarfod.

### 3. CABINET – 29 MAI 2019

PENDERFYNWYD y caiff cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mai 2019 eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

## MATERION LLE MAE ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

### 4. CREDYD CYNHWYSOL - Y DIWEDDARAF AM DAI.

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd i Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili ar 16eg Mai 2019 a'r Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio ar 11eg Mehefin 2019 yn ceisio cael cytundeb y Cabinet i dderbyn diweddariadau rheolaidd ar gyflwyno Credyd Cynhwysol (CC) a'i effeithiau, cadarnhau'r dull a ddefnyddir i reoli'r broses o gyflwyno CC a'r cymorth sy'n cael ei gynnig i denantiaid Cartrefi Caerffili.

Amlinellodd yr adroddiad effaith CC ar denantiaid y cyngor a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac eglurodd sut mae'r broses o gyflwyno CC yn gweithredu a'r materion sy'n deillio o hyn, gan arwain at gynnydd mewn ôl-ddyledion rhent. Mae lefel yr ôl-ddyledion rhent yn sylweddol uwch na lefelau y tenantiaid nad ydynt yn derbyn CC ac mae'n eithaf clir bod llawer o denantiaid yn cael trafferth gyda chymhlethdod CC ac mewn perygl o beidio â chael yr hawl i gael budd-daliadau llawn.

I gydnabod y problemau sy'n codi o ganlyniad i gyflwyno CC, mae'r adroddiad hefyd yn egluro'r goblygiadau ychwanegol o ran adnoddau i Gartrefi Caerffili o ran darparu'r mecanweithiau cymorth helaeth yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i'n tenantiaid cynnal eu tenantiaethau, uchafu eu hincwm, gwella amodau byw a hefyd cynnal incwm rhent.

Yn ogystal, amlinellodd swyddogion fod y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio yn gwbl gefnogol i'r adroddiad a'r gwaith a wnaed gan staff i gynorthwyo tenantiaid.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Gofynnodd Aelod, wrth nodi effeithiau CC ar denantiaid, pa adborth sy'n cael ei ddarparu ar lefel genedlaethol ac a oes unrhyw beth yn cael ei wneud i gefnogi awdurdodau lleol. Esboniodd swyddogion fod Llywodraeth Cymru (LlC) ar hyn o bryd yn cynnal astudiaeth blwyddyn o hyd i ystyried effeithiau CC ar denantiaid. O ganlyniad mae'r Awdurdod yn darparu data fel ffigurau ôl-ddyledion rhent ar gyfer y rhai sy'n derbyn CC a'r rhai sydd ddim; rhoi systemau cymorth ar waith a chynnal cyfweliadau â'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth; bydd yr adborth ar ei gyfer yn cael ei goladu a'i adrodd y flwyddyn nesaf. Yn ogystal, awgrymwyd y dylid cynnwys data am y defnydd o fanciau bwyd hefyd.

Cafwyd trafodaethau ynghylch lefelau'r tenantiaid oedd yn derbyn CC ar draws y fwrdeistref a nodwyd bod mwy o denantiaid yn derbyn CC yn Rhymni Uchaf a gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am brosiectau neu raglenni sydd ar waith i gynnig cefnogaeth a chyfleoedd i greu swyddi. Nodwyd bod blaenoriaeth i gau'r bwlch rhwng Gogledd a De'r fwrdeistref ac mae nifer o waith strategol, megis Prif Gynllun Blaenau'r Cymoedd a gwaith cydweithredol gyda Blaenau Gwent a Thorfaen o amgylch coridor yr A465 yn sail i gryn dipyn o brosiectau a fydd yn helpu i wella rhagolygon o fewn yr ardal.

Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth am yr effaith y mae CC wedi'i chael ar landlordiaid preifat, gan gyfeirio'n benodol at y rheini sydd â phortffolios eiddo llai. Eglurodd swyddogion, er y bu cynnydd mewn ôl-ddyledion o ganlyniad i CC, y bu cynnydd yn nifer y landlordiaid preifat sy'n gweithio gyda'r Awdurdod, yn bennaf i helpu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â digartrefedd, ond ni fu gostyngiad hyd yma ar nifer y landlordiaid preifat sy'n cymryd rhan, o ganlyniad i CC.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:

i) Cytunwyd y dylid rhoi diweddariad rheolaidd ar y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol a'i effaith;

ii) y dull sy'n cael ei ddefnyddio i reoli'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol a'r cymorth sy'n cael ei gynnig i denantiaid yn cael ei gadarnhau.

## 5. DARPAR ALLDRO AR GYFER 2018/19

Rhoddodd yr adroddiad fanylion i'r Cabinet am y darpar alldro ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19.

Nodwyd bod Atodiad A i'r adroddiad yn crynhoi'r sefyllfa’r darpar alldro refeniw, sef tanwariant net o £13.147m, sy'n cynnwys gorwariant o £550k ar gyfer ysgolion a thanwariant o £5.461m ar y Cyfrif Refeniw Tai, a gaiff ei gario ymlaen i flwyddyn ariannol 2019/20 er mwyn cefnogi’r rhaglen SATC.

Yn ystod y flwyddyn, mae swyddogion wedi parhau i fod yn ystyriol o'r rhaglen llymder parhaus ac mae gwariant wedi'i gwtogi mewn nifer o feysydd i gefnogi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r dull gweithredu darbodus hwn wedi arwain at gyflawni nifer o arbedion ymlaen llaw ac felly mae tanwariant yn uwch nag a fyddai'n digwydd fel arfer. Cafwyd manylion am yr amrywiadau mwy sylweddol yn erbyn y gyllideb yn yr adroddiad, ar gyfer pob Cyfadran.

Mae Atodiad B i'r adroddiad yn dangos y symudiadau ar gydbwysedd y gronfa gyffredinol o'r 1af Ebrill 2018 i'r 31ain o Fawrth 2019 ynghyd ag ymrwymiadau cyfredol y cytunwyd arnynt ar gyfer 2019/20. Balans y Gronfa Gyffredinol a ragwelwyd, fel yr adroddwyd i'r Cyngor ar y 21ain Chwefror 2018, oedd £11.660m. Y sefyllfa ddiweddaraf yw balans rhagamcanol o £14.040m a darparodd y tabl ym mharagraff 5.4 o'r adroddiad fanylion y cynnydd hwn o £2.380m.

Cyfanswm y gwariant cyfalaf ar Raglen Cyfalaf SATC ar gyfer 2018/19 oedd £51.9m, sef y lefel gwariant uchaf ers i’r Rhaglen SATC ddechrau.

Canlyniad Rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gyffredinol ar gyfer 2018/19 oedd cyfanswm cyllid ar gael o £64.2m gan gynnwys yr holl ddyraniadau grant ac arian Adran 106 yn ystod y flwyddyn. Nid oedd swm o £37.6m wedi'i wario hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r rhan fwyaf ohono'n llithriad sydd wedi'i gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol 2019/20.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch yr argymhelliad i'r Cyngor y dylid cadw balans y gronfa gyffredinol ar £11.660m, fel y cytunwyd yn flaenorol gan y Cyngor ar 21ain Chwefror 2019, gan gyfeirio'n benodol at bryderon Swyddfa Archwilio Cymru o fewn materion awdurdodau lleol eraill lle mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i gynnal gwasanaethau. Nodwyd bod y Swyddog Adran 151 fel arfer yn argymell balans sylfaenol o £10m o'r Gronfa Gyffredinol, sef tua 3% o'r gyllideb refeniw net. Fodd bynnag, byddai angen arbedion disgwyliedig o £44m ar gyfer y cyfnod pedair blynedd 2020/21 i 2023/24, ac mae'n anochel y bydd angen gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:

i) nodi'r sefyllfa darpar alldro 2018/19;

ii) argymhelliad i'r Cyngor i gael ei gefnogi o ran y dylai balans y Gronfa Gyffredinol gael ei gynnal ar £11.660m fel y cytunwyd yn flaenorol gan y Cyngor ar 21ain Chwefror 2019;

iii) argymhelliad i'r Cyngor i gael ei gefnogi o ran y dylid trosglwyddo'r cynnydd yng nghydbwysedd y Gronfa Gyffredinol o £2.380m dros y lefel a ragwelwyd yn flaenorol i'r Cronfeydd Cyfalaf a Glustnodwyd, hyd nes y ceir adroddiad a gyflwynir yn ystod yr Hydref mewn perthynas â chronfeydd cyfalaf heb eu neilltuo a chynigion ar gyfer buddsoddiadau mewn nifer o brosiectau strategol allweddol;

iv) cytuno ar y cynigion fel y nodir ym mharagraffau 5.28 a 5.29 y dylid defnyddio'r balans sy'n weddill, sef £192 mil ar gronfa beilot y Gwasanaethau Cymorth Maethu Dwys o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol fel a ganlyn:-

- £91 mil i ariannu 2 Weithiwr Cymdeithasol cyfnod penodol ychwanegol am 12 mis i fynd i'r afael ag ôl-groniad mewn adolygiadau achos
- £72 mil i ariannu ôl-lenwi ar gyfer staff sy'n dilyn Hyfforddiant Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol
- £29 mil i ychwanegu at gronfa wrth gefn Buddsoddi i Arbed penodol Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 6. STRATEGAETH DRAWSNEWID CAERFFILI YN Y DYFODOL - *#TÎMCAERFFILI – YN WELL GYDA'N GILYDD*

Roedd yr adroddiad, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 28ain Mai 2019, a'r fideo yn hysbysu'r Aelodau bod y Strategaeth Drawsnewid yn rhoi manylion model gweithredu awdurdod cyfan newydd ar gyfer y Cyngor sy'n archwilio sut y caiff gwasanaethau eu blaenoriaethu, sut y gallant ddod yn fwy effeithlon o ran busnes, archwilio cyfleoedd i ganolbwyntio mwy ar gwsmeriaid a darpariaeth ddigidol, ystyried modelau cyflwyno amgen a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau mewn ffordd fwy masnachol.

Nododd y Cabinet fod y model gweithredu sefydliadol presennol yn cael ei ddisgrifio fel un "traddodiadol" a'i fod wedi gwasanaethu'r awdurdod yn dda hyd yma. Fodd bynnag, mae'n ofynnol gyrru trawsnewid er mwyn bod yn addas at y diben ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt. Mewn ymateb i hyn, mae'r Awdurdod yn cychwyn ar raglen drawsnewid fawr sy'n cael ei lansio fel ***#TîmCaerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd***. Mae'r rhaglen newid uchelgeisiol yn mynegi gweledigaeth gyfunol y Cabinet a'r Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol ac mae wedi'i datblygu dros y 12 mis diwethaf. Wrth wneud y strategaeth hon yn realiti, bydd yr angen am arweinyddiaeth ddewr yn wleidyddol a gan swyddogion yn hanfodol er mwyn sicrhau y cyflawnir y canlyniadau y mae'r Awdurdod yn ceisio eu cyflawni'n llwyddiannus.

Mae'r rhaglen drawsnewid yn amlweddog, ac yn ei hanfod bydd mantra newydd sef "Calon Gymdeithasol a Phen Masnachol. Mae hyn yn cydnabod ymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus ac anghenion dinasyddion, ond mae hefyd yn dangos ymrwymiad i archwilio ffyrdd newydd o weithio i gynhyrchu incwm i'w ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau i'w helpu i barhau i wrthsefyll yn yr hinsawdd ariannol heriol sydd ohoni. Mae rhai o'r prif feysydd ffocws yn cynnwys blaenoriaethu gwasanaethau i ddiwallu anghenion preswylwyr; ystyried sut i ddod yn fwy effeithlon o ran busnes drwy arloesi a dull strwythuredig o adolygu gwasanaethau; archwilio cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio; gwell ffocws ar gwsmeriaid; mwy o bwyslais ar wasanaethau digidol a cheisio mwy o gyfleoedd masnachol.

Cyflwynwyd y Strategaeth Drawsnewid i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar yr 28ain Mai 2019 a chymeradwywyd yr argymhellion yn yr adroddiad eglurhaol gan y mwyafrif yn bresennol gydag un yn pleidleisio yn erbyn. Ategodd y Pwyllgor Craffu argymhelliad

ychwanegol hefyd ar gyfer cyflwyno adroddiad cynnydd bob chwe mis i'r Pwyllgor Craffu cyn i'r Cabinet ei ystyried.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a'r fideo a chafwyd trafodaeth.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch y Strategaeth Drawsnewid ac annog staff i fod yn arloesol ac a ellid cael gwrthdaro o ganlyniad i hynny. Eglurodd swyddogion fod angen mwy o gwmpas y broses a'r gwiriadau a'r cydbwysedd yn eu lle er mwyn sicrhau dull gweithredu corfforaethol.

Trafododd y Cabinet y ddarpariaeth o ganolfan blant newydd, a nodwyd, er na wnaed unrhyw benderfyniad ffurfiol, y bydd adroddiadau pellach i'r Cabinet i amlinellu prosiect holistig a chydweithredol gydag Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar argymhelliad ychwanegol (v):

i) i gytuno cynnwys y Strategaeth a'r Cynllun Strategol fel y'u hatodwyd i'r adroddiad

ii) i neilltuo £425 mil i ariannu tair swydd cyfnod penodol am 2 flynedd gychwynnol i ddarparu'r capasiti ychwanegol sydd ei angen i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth;

iii) y caiff y £425 mil ar gyfer y tair swydd cyfnod penodol arfaethedig ei ariannu o'r gronfa wrth gefn £1.8m a glustnodwyd a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 31ain Gorffennaf 2018, a sefydlwyd i ddarparu cyllid ar gyfer costau untro sy'n gysylltiedig â chyflenwi arbedion i gefnogi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig;

iv) y dylid dod ag adroddiadau cynnydd bob chwe mis ar y Strategaeth Drawsnewid i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau cyn ei ystyried gan y Cabinet

*v) bod penderfyniadau penodol ynghylch gwahanol elfennau'r rhaglen yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w ystyried wedi hynny.*

## 7. STRATEGAETH A CHYNLLUN GWEITHREDU STRATEGOL GWASANAETHAU CWSMERIAID A DIGIDOL

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 28ain Mai 2019, yn amlinellu ac yn ceisio cymeradwyaeth i'r Strategaeth Cwsmeriaid a Digidol drafft a'r Cynllun Gweithredu Strategol cysylltiedig ar gyfer CBS Caerffili.

Drwy gyfrwng rhyngwyneb digidol rhyngweithiol a fydd ar gael ar wefan y cyngor a chaiff ei ddiweddaru'n barhaus, cyfeiriwyd y Cabinet at adrannau allweddol y Strategaeth fel y'u hatodwyd i'r adroddiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Strategaeth yn nodi gweledigaeth arfaethedig ar gyfer "buddsoddi yn ein dyfodol drwy agor y drws ffrynt digidol". Mae'r Strategaeth yn cynnwys nifer o egwyddorion arweiniol a naratif ar gyfer #CaerffiliDdigidol, gan gynnwys cysylltedd â chwsmeriaid a staff drwy'r "drws ffrynt digidol" hwn, a fydd yn helpu ac yn cefnogi busnesau drwy ysgogi atebion arloesol, yn cwmpasu Agenda Cymru ehangach drwy lynu at egwyddorion digidol a datblygu safonau gwasanaeth digidol, a bydd yn cysylltu'n fewnol â diwylliant digidol i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o dechnoleg gyfoes. Mae'r Cynllun Gweithredu sydd ynghlwm wrth y Strategaeth yn cyflwyno blaengynllun gwaith a

gweithgareddau i gyflawni Amcanion Allweddol y Strategaeth, a bydd y Strategaeth yn gosod y llwyfan ar gyfer y cyfeiriad teithio i'r gwasanaeth a'r Cyngor yn y dyfodol.

Nododd y Cabinet y bydd y Strategaeth yn rhoi'r cwsmer wrth wraidd y broses o ddarparu gwasanaethau, tra hefyd yn parhau i gefnogi gwasanaeth cwsmeriaid traddodiadol a dull personol. Pwysleisiodd swyddogion na fydd y strategaeth yn cael gwared ar y gwasanaethau cwsmeriaid presennol ond yn hytrach y bwriad yw gwella'r gwasanaethau hyn. Nodwyd ei bod yn bwysig i'r Cyngor gadw ei allu i gyfeirio ei adnoddau ei hun er mwyn cyflawni'r strategaeth hon yn llwyddiannus, ac er nad yw hyn yn cau'r drws ar gydweithrediadau TGCh a darpariaeth ddigidol yn y dyfodol, bydd yn galluogi'r Cyngor i ganolbwyntio ar y tasgau wrth law ar adeg allweddol yn ei thaith drawsnewid. Nodwyd er bod y Cabinet wedi cymeradwyo'r cynnig i neilltuo £600 mil i ariannu rhai o'r buddsoddiadau cychwynnol i gefnogi'r strategaeth, rhagwelir y bydd angen buddsoddiad pellach yn y dyfodol ac y bydd yn amodol ar adroddiadau Cabinet pellach wrth i bethau symud ymlaen.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a'r cyflwyniad a chafwyd trafodaeth.

Gofynnodd un o'r Aelodau am sicrwydd y bydd gwasanaethau ar gael i'r trigolion hynny nad ydynt yn dda gyda systemau digidol. Esboniodd swyddogion nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gau neu i ddileu unrhyw wasanaethau sy'n cael eu darparu gan wasanaethau cwsmeriaid ar hyn o bryd. Bydd cymorth ychwanegol ar gael i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau i'w helpu i wasanaethu eu hunain yn y dyfodol, ac mae'r rhaglen ddigidol yn anelu at wella'r gwasanaethau presennol, gan ddarparu gwasanaethau ar-lein i'r rhai sy'n dymuno defnyddio gwasanaethau'n ddigidol.

Cafwyd trafodaethau ynghylch y llwyfan digidol a gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd y byddai'r platfform yn cael ei ddiweddaru'n gyson. Eglurodd swyddogion y bydd rhoi mwy o wasanaethau digidol ar waith yn golygu yn y pen draw bod gan staff fwy o allu i ddiweddaru a chynnal y gwasanaethau ar-lein. O ran newidiadau i staff a manylion cyswllt ar y platfform, nodwyd y gall y rhain gael eu diweddaru o fewn 24 awr, ar yr amod bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn modd amserol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y swyddog, fod y cwsmer a bydd y strategaeth ddigidol a'r cynllun gweithredu strategol, fel y'u hatodir i'r adroddiad, yn cael eu cymeradwyo.

## 8. EGWYDDORION GWEITHREDU MICROSOFT O365

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 28ain Mai 2019 yn amlinellu'r egwyddorion ar weithredu'r datrysiad 'Office 365' (O365) ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Nodwyd, yn unol â Strategaeth Cwsmeriaid a Digidol y Cyngor, fod yr awdurdod wedi bod yn ymchwilio i weithredu'r fersiwn ddiweddaraf o becyn swyddfa 'Microsoft Office 365' (O365). Mae'r adnoddau hyn yn cynnig cyfres estynedig o ddulliau cynhyrchiant a chydweithio dros gyfres bresennol Microsoft Office, a byddant yn cynorthwyo gyda rhwystrau a heriau bob dydd y mae swyddogion yn eu cael wrth weithio'n effeithiol, yn effeithlon ac yn gydweithredol yn yr amgylchedd systemau presennol. Bydd yr ystod cynnyrch newydd yn cefnogi'r Strategaeth Cwsmeriaid a Digidol arfaethedig a'r Strategaeth Drawsnewid ehangach, a bydd yn seiliedig ar y Cwmwl er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd storio.

Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried y goblygiadau ariannol a nodwyd yn yr adroddiad, ac er bod y costau hyn yn ymddangos yn sylweddol, esboniwyd nad oes opsiwn i barhau â'r model presennol o gynnig a phrisio Microsoft. Ar hyn o bryd ariennir y trwyddedau o Gronfa

Amnewid Cyfrifiaduron ac yn seiliedig ar ymfudiad cyfartal o'r gweithlu i O365 dros y 18 mis nesaf, bydd y costau'n cynyddu gan £13.58 mil yn 2019/20 gyda chynnydd pellach o £172.5 mil yn 2020/21. Mae trwyddedau a darparwyr eraill ar gael ond byddai cost y drwydded a chost y newid yn sylweddol ac yn gyfyngol. Ar ddiwedd y cytundeb Microsoft hwn (2020), bydd y Cyngor yn ymrwymo i gytundeb newydd a fydd yn pennu'r costau uned ar gyfer y tair blynedd ddilynol ac amcangyfrifir y bydd yn £720 mil y flwyddyn, sef tua 20% o gynnydd ar gostau 2020. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod y sector cyhoeddus ledled Cymru wedi gweld cynnydd o 50%-60% yn y pris ar eu trwyddedau Microsoft wrth symud i O365 yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bydd goblygiadau ariannol y mudo hwn i O365 yn cael eu hadolygu'n fanwl yn ystod y broses weithredu a bydd y cyllid ychwanegol sydd ei angen yn cael ei gynnwys yn y broses o bennu'r gyllideb ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2020/21 a 2021/22.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

I gefnogi'r datblygiadau, holodd Aelod o'r Cabinet a oedd yr holl lwyfannau eraill wedi cael eu hystyried. Esboniodd swyddogion fod nifer o opsiynau amgen wedi'u hystyried, fodd bynnag mae costau sylweddol yn gysylltiedig â newid, gan gynnwys costau hyfforddi, a gallent arwain at anawsterau o ran cydweithredu a hyd yn oed ynysu, gan fod y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol bellach wedi symud i O365.

Holodd Aelod a ellid cael unrhyw opsiynau ar gyfer gwneud arbedion neu annog refeniw o ganlyniad i'r rhaglen weithredu. Eglurodd swyddogion fod O365 yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial, mae posibilrwydd y gallai ddisodli 10 cais arall, gan wneud arbedion. Yn ogystal, nodwyd, gan fod O365 yn seiliedig ar y Cwmwl, y byddai hefyd arbedion o ran gweinyddion a storio.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y swyddog, i weithredu datrysiad Office 365 i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, fel y nodir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:47 am.

Wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod i'w gynnal ar 26 Mehefin 2019.

________________________

CADEIRYDD